**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-HIDCC-0685-25

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.cymru

21 Mawrth 2025

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol uchod yn dod i rym ar 27 Mawrth 2025, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau 2025 newydd") yn Offeryn Statudol a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau 2025"), a osodwyd ar 6 Mawrth i gywiro mân wall drafftio yn y fersiwn Gymraeg, lle roedd Rheoliad 1(3) yn cyfeirio'n anghywir at ddyddiad dod i rym sef '28 Mawrth 202<u>8</u>' yn lle '28 Mawrth 202<u>5</u>'.

Gwnaed Rheoliadau 2025 i ddiwygio gwall drafftio yn Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024. Bydd y Rheoliadau 2025 newydd yn cyflwyno'r un diwygiad a amlinellwyd, gan gynnwys rheoliad ychwanegol i ddirymu'r fersiwn wreiddiol wallus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n hanfodol bod y Rheoliadau 2025 newydd yn dod i rym cyn Rheoliadau 2025, er mwyn i Reoliadau 2025 gael eu dirymu cyn iddynt ddod i rym ar 28 Mawrth 2025.

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a'r Prif Chwip, Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Matthew Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd, Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs